
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllunio Morol ar gyfer Moroedd Cymru





Trosolwg o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru sy'n datblygu

# Cynnwys


03 Pam mae angen Cynllunio Morol arnom?

04 Y broses Cynllunio Morol

05 Proses Cynllunio Morol Cenedlaethol Cymru

06 Beth fydd yn ei nodi?

12 Y Camau Nesaf


OGL © Hawlfraint y Goron 2017 WG32264 Digidol ISBN:

# Pam mae angen Cynllunio Morol arnom?

Mae moroedd Cymru yn gorchuddio oddeutu 15,000km2, sef 43% o arwynebedd Cymru. Mae dros 60% o'r boblogaeth yn byw ac yn gweithio wrth yr arfordir. Mae'r amgylchedd morol yn darparu cyfoeth o fuddion sy'n cefnogi lles cymunedau'r arfordir a chymdeithas yn ehangach.

### Mae'r rhain yn cynnwys:

- darparu bwyd drwy bysgodfeydd a dyframaethu;
- cefnogi iechyd drwy hamdden a chwaraeon;
- darparu ffordd o gludo nwyddau, fel ffynhonnell agregau ar gyfer tai a seilwaith arall a thanwyddau ffosil fel nwy ac olew;
- darparu ffynonellau ynni adnewyddadwy (tonnau, llanw, gwynt) a all ein helpu ni i fynd i'r afael â newid yr hinsawdd;
- ffordd o gludo ceblau a gollwng gwastraff yn ofalus;
- ategu ein hunaniaeth ddiwylliannol drwy forwedd, a'r amgylchedd hanesyddol;
- cynnal ein bioamrywiaeth a darparu nwyddau a gwasanaethau ecolegol;
- cefnogi'r economi drwy'r swyddi sy'n gysylltiedig â'r holl weithgareddau hyn.

Er bod moroedd Cymru yn arwyddocaol i'n bywydau, nid ydym hyd yma wedi cael trosolwg o'r defnydd rydym yn ei wneud ohonynt na chynllun clir am y ffordd orau o fanteisio arnynt yn y dyfodol. Dyna pam rydym yn datblygu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (y Cynllun Morol).

Mewn cyferbyniad, y systemau cynllunio tir, sydd wedi cael eu datblygu ers yr 20fed Ganrif, sy'n tywys datblygiadau drwy hierarchaeth o gynlluniau strwythurol lefel uchel i gynllunio mwy manwl ar lefel leol.

### Yn benodol, dylai cynllunio ein galluogi i wneud y canlynol:

- Gwneud yn siŵr ein bod yn elwa mewn sawl ffordd o'r amgylchedd morol - deall cyfleoedd i gydleoli gweithgareddau a'r defnydd o'r amgylchedd morol er mwyn i ni fod ar ein hennill ymhob ffordd.
- Sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl i bob sector ymelwa'n gynaliadwy, yn arbennig y rheini lle mae ganddynt le sylweddol i dyfu gan gynnwys twristiaeth arfordirol, dyframaethu ac ynni adnewyddadwy.
- Manteisio ar gyfleoedd ymarferol i sicrhau bod ecosystemau'n cael eu hadfer i gefnogi'u gallu i oroesi a hefyd sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu defnyddio'n gynaliadwy o fewn terfynau.
- Canolbwyntio mwy ar ddarparu buddion i gymdeithas o'r amgylchedd morol, ond yn arbennig ar gyfer cymunedau arfordirol.



# Y broses Cynllunio Morol

Gweinidogion Cymru yw’r awdurdod cynllunio ar gyfer Cymru ac, ar ôl cyhoeddi Datganiad Polisi Morol y Deyrnas Unedig (2011) (MPS), maent yn paratoi cynllun ar gyfer moroedd Cymru sy’n delio â rhanbarthau glannau Cymru a môr mawr Cymru.

Proses ydy cynllunio morol. Hwn fydd y cynllun morol cyntaf erioed ar gyfer ein moroedd ac mae’n gychwyn proses gynllunio gylchol a pharhaus. Wrth ddatblygu’r Cynllun Morol, rydym wedi ystyried nifer eang o ofynion ac ystyriaethau perthnasol, gan gynnwys y rheini sydd yn Neddf y Môr a Mynediad i’r Arfordir (2009) (MCAA) a Datganiad Polisi Morol y DU.

**Wrth ddatblygu’r Cynllun Morol drafft, rydym, ymysg gweithgareddau eraill, wedi:**

- Defnyddio’r Dull Rheoli ar lefel yr Ecosystem i helpu i wneud yn siŵr y bydd polisïau’r cynllun yn cyfrannu at Ddatblygu Cynaliadwy.
- Defnyddio’r dulliau gweithio sydd wedi’u nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Canolbwyntio ar gyflawni ar draws nodau llesiant Cymru.
- Wedi sefydlu egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy sydd i’w cael yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.


Mae gan yr holl ofynion a phrosesau hyn rolau allweddol i’w cyflawni ar gyfer cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy.

Mae cynnwys rhanddeiliaid yn rhan bwysig iawn o gynllunio effeithiol. Mae gweithio’n agos mewn partneriaeth ac ymgysylltu â phawb sydd â diddordeb ar bob cam yn hollbwysig i ddatblygu cynllun morol effeithiol i Gymru.

I helpu i ddeall beth mae rhanddeiliaid am ei gael o gynllunio morol, cafodd nifer o gyfweliadau lled-strwythuredig anffurfiol eu cynnal ag aelodau’r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol ac eraill â diddordeb morol ehangach yng Nghymru. Mae’r canfyddiadau’n cael eu defnyddio i dywys ein dull o weithio.
http://gov.wales/docs/drah/publications/170531-marine-planning-benefits-cy.pdf

Mae cynllunio morol wedi’i ddatblygu gan ddefnyddio’r dystiolaeth orau sydd ar gael. Cafodd y dystiolaeth ei chasglu a’i rhannu ar ffurf drafft drwy ‘Ymarfer Cwmpasu Strategol’ a’i chyhoeddi wedyn ar ffurf ‘Adroddiad Tystiolaeth Morol Cymru’[1]. Cafodd yr adroddiad hwn ei ddefnyddio fel sail i’r gwaith o ddatblygu’r cynllun a’r Arfarniad o Gynaliadwyedd ategol. Mae porth morol wedi cael ei ddatblygu i ddangos yr holl weithgareddau morol ar fap rhyngweithiol[2]; Rydym yn cadw’r dystiolaeth hon yn gyfredol wrth i’r gwaith cynllunio barhau i fynd rhagddo.

## Proses Cynllunio Morol Cenedlaethol Cymru




# Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (y Cynllun Morol)

Mae’r Cynllun Morol yn nodi polisi Llywodraeth Cymru am yr 20 mlynedd nesaf ar gyfer datblygu ardal cynllunio morol Cymru yn gynaliadwy, hynny o fewn rhanbarthau glannau Cymru a môr mawr Cymru. Bydd yn nodi ein dyheadau ar gyfer y defnydd o’n hadnoddau naturiol morol yn y dyfodol, a sut y dylai pawb sy’n defnyddio’n moroedd ryngweithio ac ystyried gweithgareddau a chynlluniau’i gilydd ar gyfer y dyfodol.

Drwy sefydlu ein polisi cynllunio morol, mae Llywodraeth Cymru yn gwneud yn siŵr y byddwn yn defnyddio’n moroedd yn gynaliadwy ac yn cefnogi “twf glas”. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy esbonio’n iawn sut y dylai cynigion gael eu datblygu, pennu’r ardaloedd mwyaf priodol yn y môr ar gyfer eu lleoli a thrwy wneud yn siŵr bod ymgysylltu cadarnhaol a chynnar yn digwydd rhwng y gwahanol rai sy’n defnyddio’r môr. Drwy wneud hyn, gallwn fynd ati’n well i hwyluso’r defnydd amrywiol o’r gofod morol a rheoli adnoddau naturiol morol yn gynaliadwy.

1 http://gov.wales/topics/environmentcountryside/marineandfisheries/marine-planning/other-supporting-evidence/wales-marine-evidence-report/?lang=cy
2 http://lle.gov.wales/apps/marineportal/?lang=cy

# Sut mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn berthnasol i Foroedd ehangach y Deyrnas Unedig?

Mae'r cynllun wedi cael ei ddatblygu i gydymffurfio â Datganiad Polisi Morol y DU. Mae hyn yn helpu i sicrhau dull gweithredu cyffredin ar gyfer cynllunio ar draws y DU ond gan roi cyfle i gynlluniau gydnabod a rhoi sylw i wahaniaethau, problemau a blaenoriaethau sy'n benodol i Gymru.

Mae cynlluniau morol tebyg yn cael eu datblygu yn Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon, ac ar sail ranbarthol mewn rhai achosion.

Fel dogfen bolisi integredig, mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru wedi cael ei ddatblygu drwy gael mewnbwn o bob rhan o Lywodraeth, gan gynnwys adrannau Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am swyddogaethau morol penodol. Oherwydd bod y Cynllun Morol yn cynnwys polisi sy'n gysylltiedig â swyddogaethau heb eu datganoli, mae'n cael ei ddatblygu gyda chytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol.

Rydym yn cynnig y bydd Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn darparu canllawiau polisi / cynllunio strategol ar lefel uchel a manylion penodol ar lefel leol. Yn wahanol i gynllunio tir, bydd hyn wedi'i gynnwys mewn un cynllun yn hytrach na mewn hierarchaeth o gynlluniau.


# Beth fydd yn ei nodi?

**Mae'r cynllun yn nodi pwy ddylai ei ddefnyddio a sut.**

Unwaith y bydd yn cael ei fabwysiadu, bydd y Cynllun Morol, ynghyd â'r Datganiad Polisi Morol yn 'ddogfennau cynllunio perthnasol', a dylai awdurdodau cyhoeddus wneud penderfyniadau awdurdodi neu orfodi, neu benderfyniadau eraill a allai effeithio ar yr ardal forol yn unol â'r dogfennau hyn (oni fydd ystyriaethau perthnasol yn dangos fel arall).

Bydd y polisïau'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu'n moroedd yn gynaliadwy, gan bennu cyfleoedd yn y dyfodol ar gyfer twf ac ystyriaethau cynaliadwyedd a fydd yn tywys datblygiadau newydd a phenderfyniadau cysylltiedig.



# Cefnogi Twf Glas drwy Dywys Cyfleoedd



## Beth?

## Pam?

## Pryd?

## Sut?

## Ble?

## Pwy?

Mae'r cynllun yn rhoi gweledigaeth glir ac amcanion i gefnogi'r cynllun. Mae'r rhain yn fframio ac yn tywys y gwaith o ddatblygu polisi cynllunio manwl.

**Mae moroedd Cymru yn lân, yn iach, yn ddiogel, yn gynhyrchiol ac yn amrywiol yn fiolegol:**

- Drwy ddull rheoli ar lefel yr ecosystem, mae ein moroedd yn iach ac yn wydn, ac maent yn cefnogi economi lewyrchus a chynaliadwy.
- Drwy gael mynediad at yr amgylchedd morol, a'i fwynhau, mae iechyd a lles yn gwella.
- Drwy Twf Glas, mae mwy o gyfoeth a swyddi'n cael eu creu ac mae'n helpu cymunedau arfordirol i ddod yn fwy gwydn, llewyrchus a chyfartal gyda diwylliant egnïol.
- Drwy ddefnyddio technolegau carbon isel yn gyfrifol, mae ardal forol Cymru yn gwneud cyfraniad pwysig at ddiogelu ffynonellau ynni a thargedau allyriadau mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd.

Mae ein gweledigaeth yn cael ei chyflawni drwy ddull integredig sy'n cael ei dywys gan y cynllun a thystiolaeth. Mae'n parchu'r diddordebau a'r defnydd sydd eisoes yn cael ei wneud o'r amgylchedd hwn, gan bennu'r buddion a allai ddeillio o gyfleoedd newydd, a chydnabod pwysigrwydd ecosystemau gwydn, gwerth bioamrywiaeth a'r rheidrwydd i addasu i newid yn yr hinsawdd.

Mae'r Cynllun Morol yn cynnwys polisi sy'n gysylltiedig ag amrywiaeth eang o ystyriaethau cyffredinol (sy'n cael eu cyflwyno fel cyfres o ***Bolisïau Cyffredinol*** yn y cynllun) ac yn delio â thestunau sy'n cynnwys: gwarchod natur, ansawdd dŵr, defnydd cynaliadwy, morweddau, cymunedau arfordirol a thwf economaidd, effeithiau cronnus, treftadaeth etc.

Sicrhau economi forol gynaliadwy

Hyrwyddo llywodraethu da

Sicrhau cymdeithas gref, iach a chyfiawn

Defnyddio gwyddoniaeth gadarn

Byw o fewn terfynau amgylcheddol

Mae'r Polisïau Cyffredinol hyn wedi'u trefnu o dan themâu Amcanion Morol Lefel Uchel cyffredin y Deyrnas Unedig, ac maent wedi'u rhifo er hwylustod, er enghraifft:

# Enghraifft o Bolisi Cyffredinol yn y Cynllun Drafft

## ENV_02: Ardaloedd Morol Gwarchodedig

Dylai'r cynigion ddangos sut maent yn:

- osgoi effeithio'n andwyol ar Ardaloedd Morol Gwarchodedig unigol a chydlyniant y rhwydwaith fel cyfanwaith;
- ystyried y mesurau i reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig; ac
- osgoi effeithio'n andwyol ar safleoedd wedi'u dynodi nad ydynt yn safleoedd morol.

Byddant yn cael eu defnyddio i dywys cynigion wrth iddynt ddatblygu ac unrhyw benderfyniadau cysylltiedig sy'n cael eu cymryd gan awdurdodau cyhoeddus o ran caniatáu neu awdurdodi. Bydd polisïau cyffredinol yn berthnasol i'r holl benderfyniadau datblygu, er na fydd pob un yn berthnasol ymhob achos.

Bydd Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru hefyd yn cynnwys **amcanion sectorau** a **pholisïau sectorau** ar gyfer yr un ar ddeg sector gwahanol sy'n gweithredu yn yr ardal forol.

## Mae Polisïau'r Sectorau'n cael eu nodi ar gyfer y mathau amrywiol o weithgarwch sy'n digwydd yn ein moroedd, gan gynnwys:

- Agregau
- Dyframaeth
- Amddiffyn
- Carthu a gwaredu
- Pysgodfeydd
- Ynni adnewyddadwy
- Olew & Nwy
- Porthla-ddoedd morgludo
- Ceblau tanfor
- Dŵr gwastraff ar yr wyneb
- Twristiaeth a hamdden

Mae Polisïau'r Sectorau'n gallu cynnwys polisïau '**cefnogi** a / neu '**ddiogelu**' i helpu i wneud yn siŵr y gall pob sector ddatblygu'n gynaliadwy.

Mae **polisi cefnogi** penodol-i-sector yn annog twf cynaliadwy'r sector hwnnw dros gyfnod y cynllun. Gall hyn fod yn gefnogaeth gyffredinol, neu, lle y mae'n briodol gwneud hynny, o fewn ardaloedd penodol o'r môr lle teimlir bod yr amodau'n cefnogi potensial da am weithgareddau yn y dyfodol. Nodir yr ardaloedd hyn ar fapiau fel Ardaloedd Adnoddau Strategol sy'n cynnwys adnoddau naturiol addawol sydd eu hangen ar y sector (e.e. ynni'r llanw, ynni o'r tonnau, lle ar gyfer cael mynediad i longau, tywod ar gyfer adeiladu etc); ac o fewn yr ardaloedd adnoddau ehangach sy'n berthnasol i'r sector hwnnw.



# Enghraifft o Bolisi Cefnogi Sector yn y Cynllun Drafft

## AGG_01: Agregau (cefnogi)

Mae cynigion ar gyfer cloddio am agregau mewn Ardaloedd Adnoddau Strategol yn cael eu hannog o fewn y terfynau tunelledd a ganiateir a all gael eu diffinio ar gyfer yr ardal honno.

Mewn cydweithrediad â'r sector a phartïon eraill sydd â diddordeb, dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol gydweithio i ddeall y cyfleoedd ar gyfer y defnydd cynaliadwy o:

- ardaloedd Adnoddau Strategol agregau; ac
- adnoddau naturiol agregau morol ehangach;

er mwyn cefnogi twf cynaliadwy'r sector agregau drwy gynllunio morol.

Mae **polisïau diogelu** penodol-i-sector yn ceisio diogelu gweithgareddau cyfredol / wedi'u hawdurdodi neu gynigion sydd eisoes wedi cael eu datblygu'n dda rhag effeithiau andwyol gweithgareddau sectorau eraill. Gall polisïau diogelu hefyd ddiogelu ardaloedd o botensial yn y dyfodol, gan sicrhau nad yw gweithgareddau sectorau eraill yn sterileiddio nac yn mynd ati'n ddiangen i atal yr adnodd rhag cael ei ddefnyddio yn y dyfodol.

Bydd **polisïau diogelu** yn annog, yn cefnogi ac yn hyrwyddo ymgysylltu rhwng sectorau a chydystyried ar gam cynnar yn y gwaith o gynllunio prosiect. Bydd hefyd yn helpu i hwyluso'r defnydd gorau posibl o ofod ac adnoddau morol ac osgoi gwrthdaro diangen, er enghraifft:

# Enghraifft o Bolisi Diogelu Sector yn y Cynllun Drafft

## AGG_02: Agregau (diogelu)

Ni ddylai cynigion a all effeithio ar ardaloedd lle mae trwydded forol a chytundeb cynhyrchu ar gyfer codi/cloddio am agregau wedi cael eu rhoi neu gais ffurfiol wedi'i gyflwyno amdanynt, gael eu hawdurdodi oni ellir dangos yn foddhaol eu bod yn gyson â gweithgarwch agregau sydd eisoes yn digwydd, wedi'i awdurdodi neu wedi'i gynnig neu os oes amgylchiadau eithriadol. Dylai sicrhau cysondeb, yn y drefn sydd orau ganddynt, drwy:

a) osgoi effeithiau andwyol ar y gweithgareddau hynny; a/neu

b) lleihau effeithiau i'r eithaf lle nad oes modd eu hosgoi; a/neu


c) lliniaru ar yr effeithiau lle nad oes modd eu lleihau.

Os na ellir cael cysondeb digonol, dylai'r cynigion roi cyfiawnhad digonol sy'n argyhoeddi ar gyfer bwrw ymlaen.


Mae polisïau sectorau yn rhoi arweiniad i fusnesau ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol drwy helpu i ddwyn sylw at gyfleoedd i ddefnyddio adnoddau yn y dyfodol a sut i ystyried buddiannau sectorau eraill. Byddant yn tywys y gwaith o wneud penderfyniadau a chasglu tystiolaeth gan awdurdodau cyhoeddus ochr yn ochr â'r Polisïau Cyffredinol.

Ni fyddai ardaloedd adnoddau strategol sectorau'n gwarantu y byddai caniatâd yn cael ei roi ar gyfer gweithgarwch penodol o fewn yr ardal ac nid ydynt ychwaith yn atal gweithgareddau sectorau y tu allan i'r ardal; arweiniad cynllunio ydynt yn unig a byddant yn cael eu defnyddio ar y cyd â pholisïau eraill sy'n gysylltiedig â'r cynllun ac ystyriaethau perthnasol eraill.


Wrth i'n dealltwriaeth a'n gwybodaeth am yr ardal forol ddatblygu, efallai y bydd yr Ardaloedd Adnoddau Strategol a'r dull polisi cysylltiedig yn cael eu mireinio wrth i'r gwaith datblygu morol ddatblygu.





**Pysgodfeydd**




**Cadwraeth**




**Ynni adnewyddadwy**




**Morgludiant**

# Y camau nesaf

Byddwn yn ymgynghori ar gynllun drafft Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru am 16 wythnos ac yn ystyried yr ymatebion a fydd yn cael eu derbyn. Byddwn hefyd yn darparu adroddiad am sut rydym wedi'u hystyried os bydd y Cynllun Morol yn cael ei ailddrafftio. Ar yr un pryd, byddwn yn ystyried a ddylid cynnal ymchwiliad annibynnol ar y cynigion yn y drafft ac unrhyw sylwadau a dderbyniwyd neu ar unrhyw faterion perthnasol eraill.

Byddwn wedyn yn llunio cynllun terfynol ac yn ei gyhoeddi a'i fabwysiadu gyda chytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol. Bryd hynny bydd yn dod i rym a rhaid ei ddefnyddio fel y nodir yn Neddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (2009).

Wrth i ni fwrw ymlaen i fabwysiadu'r cynllun, byddwn yn gweithio gydag awdurdodau cyhoeddus a rhanddeiliaid allweddol i'w cefnogi a'u tywys yn y gwaith o symud i ddull dan arweiniad cynllun wrth wneud penderfyniadau morol. Rydym yn cydnabod y bydd defnyddio fframwaith polisi newydd yn cymryd amser ac y bydd y Cynllun Morol yn esblygu a newid wrth i ni ddysgu o brofiad.

# Ar ôl mabwysiadu'r cynllun

Ar ôl cael ei fabwysiadu, un peth allweddol y byddwn yn canolbwyntio arno wrth weithredu'r cynllun yw ei fod yn ymarferol ac yn gymesur yn ei ddefnydd a'i fod yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'n moroedd yn gynaliadwy.

Mae Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (MCAA) yn ei gwneud yn ofynnol i bolisïau'r cynllun gael eu hadolygu o ran effeithiau ac effeithiolrwydd y polisïau o ran diwallu amcanion y cynllun ac y bydd adroddiadau'n cael eu darparu'n achlysurol ar y rhain a'u hadolygu fel y bo'n briodol.

I gefnogi'r gwaith o ddefnyddio polisïau'r cynllun yn ymarferol, byddwn yn cyhoeddi'r cynllun a gwybodaeth berthnasol ar wefan Llywodraeth Cymru ac yn cynnal sylfaen dystiolaeth ofodol drwy gyfrwng y porth cynllunio morol. Bydd y porth hefyd yn dangos polisïau'r cynllun ac yn cysylltu â chynlluniau morol eraill a thystiolaeth berthnasol arall. Byddwn yn gweithio gyda'r rhai sy'n defnyddio'r cynllun i brofi a defnyddio polisïau'r cynllun i ddangos sut y gallant gyfrannu at gynllunio prosiectau a gwneud penderfyniadau. Byddwn hefyd gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu'r gwaith o adrodd ar bolisïau'r cynllun, a'u monitro a datblygu canllaw gweithredu. Byddwn hefyd yn gweithio gyda chynllunwyr tir i gryfhau'r ddealltwriaeth am y rhyngweithio rhwng y tir a'r mor a chyfleoedd i gyfuno'r gwaith cyflwyno ar draws ffiniau gwledydd, a pharhau i adolygu rôl ar gyfer cynllunio rhanbarthol wrth roi'r cynllun ar waith.

Byddwn yn derbyn y cyngor a gafwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar gefnogi dull sy'n seiliedig ar risg ac yn datblygu ac yn casglu tystiolaeth a'i darparu i gefnogi penderfyniadau a fydd yn cael eu gwneud, yn benodol i ddatblygu a mireinio tystiolaeth ar Ardaloedd Adnoddau Strategol a nodir yn y cynllun ac ar ecosystemau morol yn aberoedd afon Hafren ac afon Dyfrdwy. Byddwn hefyd yn cynnal ac yn diweddaru'n sylfaen dystiolaeth i wella'n dealltwriaeth.

Crynodeb byr yw'r ddogfen hon o'r dull sydd wedi'i gymryd i ddatblygu'r Cynllun Morol drafft - mae'r rhain wedi cael eu nodi yn fwy ffurfiol yn Atodlen 6 i Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (2009).

Mae'n cefnogi'r rheini sy'n awyddus i ddeall beth sydd yn y Cynllun Morol drafft ac mae'n gweithio fel canllaw mynediad hawdd i'r cynllun a'r broses gynllunio ehangach.

Bydd y Cynllun Morol drafft yn destun ymgynghoriad ffurfiol a bydd modd newid unrhyw agwedd ar y Cynllun Morol drafft yn dilyn cael adborth gan randdeiliaid a pholisi'r Llywodraeth sy'n datblygu.